

**Panel Adolygu Perfformiad y Prif Weithredwr
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Mercher yr 22^{ain} o Ebrill,
2020 drwy gynhadledd fideo am 10.00a.m.**

Yn Bresennol:

Cyngh Paul Harries Cadeirydd yr Awdurdod
Cyngh Di Clements
Mrs Julie James
Tegryn Jones, Prif Weithredwr ar gyfer eitem 5

Cytunwyd yn unfrydol i fwrw ymlaen â'r adolygiad o berfformiad y Prif Weithredwr drwy gynhadledd fideo.

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb.

2. Datgan Buddiannau

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

3. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 29^{ain} o Dachwedd 2019

Cadarnhawyd bod y cofnodion yn gywir. Nid oedd unrhyw faterion wedi codi.

4. Eithrio'r cyhoedd

Roedd y panel wedi eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod.

5. Adolygiad o'r camau ymlaen yn erbyn y targedau a'r amcanion a osodwyd ar gyfer y Prif Weithredwr, a chytuno ar amcanion ar gyfer 2020-2021

Bu'r panel yn ystyried yr adroddiad a baratowyd gan y Prif Weithredwr mewn perthynas â thargedau eleni, ac yn trafod y camau ymlaen a'r materion oedd yn codi.

Llongyfarchodd y panel y Prif Weithredwr ar y cynnydd rhagorol a wnaed tan y cyfnod cloi yn sgîl y feirws Covid-19, a'r arweinyddiaeth a ddangoswyd ganddo yn yr amseroedd digynsail hyn.

Yn benodol, roedd y Panel yn dymuno canmol y Prif Weithredwr am y sgysiau dyddiol gyda'r Cadeirydd, y diweddariad ar y cyd i'r Aelodau, a'r cylchlythyr rhagorol i'r staff oedd yn ystyriol ac yn gadarnhaol.

Roedd y Prif Weithredwr wedi rhoi diweddariad i'r Panel ar argymhellion Llywodraeth Cymru a ddaeth i rym y diwrnod hwnnw ynglŷn â chynnal cyfarfodydd yr Awdurdod yn y dyfodol drwy gynhadledd fideo, a'r treialon llwyddiannus gyda'r Aelodau, a'i ddymuniad i gynnal cyfarfodydd yn raddol yn y dyfodol i fagu hyder yn yr Aelodau a'r Swyddogion gan arwain at ganiatáu i'r cyhoedd weld y trafodion a siarad mewn cyfarfodydd Rheoli Datblygu yn y dyfodol. Cefnogwyd y cynllun hwn.

O ran y cynllun lleoedd Tirweddau Cynaliadwy, roedd wedi cael gair gyda Llywodraeth Cymru, ac ymddengys bod mwy o siawns na 50:50 y byddwn yn dal i dderbyn cyllid, felly roedd wedi cytuno i ddatblygu cynnig i gynnal y gronfa a'i gweithredu os taw dyna fydd y penderfyniad.

O ran parhad y busnes, nododd y gallem fod yn fwy cydnerth pe bai gennym fwy o drwyddedau offer a meddalwedd, a bod y system ffôn yn hynafol iawn. Gyda mwy o weithio gartref yn y dyfodol gallem arbed costau swyddfa, ond byddai angen i ni gadw materion allbwn a chanlyniadau mewn cof.

Roedd bwrdd cysgodol Rheoli Cyrchfannau wedi'i sefydlu gyda chynrychiolaeth gyfartal yn unol â chais yr Aelodau. Eu rôl yw sefydlu strwythur y Bwrdd.

Bydd y materion a amlygir yn gymorth i roi gwybodaeth i ni yn ystod y 6-12 mis nesaf fydd yn sail i amcanion y dyfodol.

Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod wedi cysylltu â Chyngor Sir Penfro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a grwpiau eraill i gynnig cymorth yn ystod yr amseroedd anodd hyn, ond nad oedd wedi derbyn unrhyw gais am gymorth hyd yn hyn, ar wahân i ddsbarthu meddyginiaeth.

Gofynnodd Julie James am eglurhad ynghylch a ddylid cytuno ar amcanion newydd yn y cyfarfod hwn ac a ddylai'r amcanion oedd heb eto eu gwireddu gael eu cario ymlaen a bod y materion a amlygwyd yn ffurfio amcanion ychwanegol. Cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

Penderfynwyd:

a) Bod y panel yn gwbl fodlon ar y perfformiad ac yn cytuno ar y prif heriau a amlygwyd gan y Prif Weithredwr yn ei adroddiad.

b) Bod y panel wedi nodi'r angen i ganolbwyntio ar y canlynol yn 2020-21:

- i. Adolygu a rheoli adnoddau'r Awdurdod, gan ystyried effaith COVID19 ac i gynnwys proses o archwilio opsiynau gyda chyfranogiad yr Aelodau gyda'r bwriad o bennu cyllideb gytbwys yn 2021-22;**
- ii. Codi graddfa'r uchelgais gyda'r staff drwy archwilio ffynonellau newydd o gyllido a ffyrdd newydd o weithio;**
- iii. Cynnal adolygiad corfforaethol o ble ddylai ein blaenoriaethau fod yn y dyfodol gyda chyfranogiad yr Aelodau, y staff a'r rhanddeiliaid fydd yn ystyried sut all yr Awdurdod Parc Cenedlaethol gwrdd â'r heriau i'r Parc Cenedlaethol a'r cymunedau lleol o ymateb i COVID-19, Brexit a ffactorau eraill;**
- iv. Datblygu a gweithredu mentrau ar dir ac ar fôr i alluogi'r Awdurdod gynorthwyo i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth;**

- v. **Sicrhau bwrw ymlaen â datblygu strwythur Rheoli Cyrchfannau;**
- vi. **Cefnogi iechyd a lles y staff drwy gynorthwyo'r Rheolwr Adnoddau Dynol i gynnal adolygiad ac ymgynghori ar bolisiau ac arferion AD, gan gynnwys ymrwymo i Safon Iechyd Corfforaethol Llywodraeth Cymru;**
- vii. **Datblygu a gweithredu cynigion i gyflwyno ffyrdd effeithlon o weithio sy'n lleihau costau ac ôl troed carbon yr Awdurdod;**
- viii. **Cefnogi gwaith tuag at Siarter Uwch Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer Aelodau;**
- ix. **Gweithio gyda Phartneriaid i ddylanwadu'n gadarnhaol ar bolisiau sy'n ymwneud â thirweddau dynodedig sy'n arwain at etholiad y Cynulliad Cenedlaethol yn 2021 ac wedi hynny.**

Daeth y cyfarfod i ben am 10.45